

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.3 Consortia rhoi o'r gyflogres

Cynlluniwyd y daflen wybodaeth yma i helpu elusennau lleol i sefydlu consortiwm fel y gallant elwa o roi o'r gyflogres a mathau eraill o gefnogaeth gan fusnesau lleol.

Mewn sawl achos, nid oes gan elusennau lleol bychain yr adnoddau i ddatblygu rhaglen rhoi o'r gyflogres. Mae nifer o elusennau bychain yn ei chael hi'n anodd mynd at gyflogwyr lleol, sy'n wyladwrus rhag hyrwyddo un achos yn unig.

Gall cydgyfrannu adnoddau cyfyngedig a gweithio fel grŵp gynnig cyfleoedd gwell; gallant ddarparu achos cryfach ar gyfer cefnogaeth, elwa o'r darbodion maint a medru rhannu adnoddau megis cysylltiadau lleol, gwirfoddolwyr, cyfleusterau cyfarfod, cyfrifiaduron a / neu weinyddol, amser ac ymdrech.

Beth yw prif gamau sefydlu consortiwm elusen lleol?

1. Diffinio ardal addas.
2. Ffurio consortiwm elusen.
3. Datblygu cynllun strategaethol.
4. Edrych am nawdd.
5. Marchnata'r consortiwm newydd.
6. Lansiad a'i ddilyn.
7. Mynd at gyflogwyr a gweithwyr.
8. Gweinyddu.

Mae partneriaeth dda angen nifer o elusennau sy'n medru cydweithio er lles pawb; gydag achos cefnogaeth cryf gallant fod yn ddeniadol i fusnesau a gweithwyr.

Ymchwil

Wrth geisio sefydlu partneriaeth elusen sy'n rhoi o'r gyflogres mae'n bwysig gwneud ymchwil i feysydd posib ar gyfer y llwyddiant gorau posib.

Meini prawf yr elusen

- Grŵp o elusennau sy'n cynnig ymdriniaeth dda o achosion, a fydd yn apelio at roddwyr lleol.
- Nifer yr elusennau sy'n bresennol.
- Elusennau sydd â hanes cydweithio.

Meini prawf y gweithwyr

- Digon o weithwyr i gynnig sail dda ar gyfer cefnogaeth.
- Cymysgedd dda o fusnesau.
- Digon o weithwyr i helpu gwneud y prosiect yn hunan-gynaladawy.
- Lefel isel o weithwyr achlysurol neu dros dro.

Cymuned

- Mae synnwyr o berthyn i gymuned yn gymorth i annog pobl i gefnogi elusennau lleol.

Methodolegau ymchwil

Gellir gosod allan ymchwil dros y we a thrwy'r ffôn mewn ffurf tabl ar gyfer cymhariaeth:

- nifer y gweithwyr
- pellter o'r ganolfan
- nifer yr elusennau
- cymysgedd y busnes a'r gweithwyr

Ffurio consortiwm

Maint grŵp y consortiwm

Mae mwy o aelodau yn lleihau'r baich gwaith, yn lleihau buddsoddiad pob aelod ac yn lleihau cyfran incwm pob aelod.

Mynnwch ddigon o aelodau ar gyfer y baich gwaith, ac incwm pob aelod yn ddigon uchel i ysgogi aelodau newydd (cyngorir peidio cael mwy na deg aelod).

Cymysgedd y grŵp

- Naill ai, ystod eang o achosion yn cynnig sail cefnogaeth eang - e.e. plant, henoed, anifeiliaid, pobl anabl, meddygol ac ati.
- Neu grwp o elusennau llai yn cynnig ffocws ar gefnogaeth – e.e. elusennau lleol yn helpu achosion lleol.

Cydweithio

Mae angen ymrwymiad da a chyfartal gan bob aelod o'r grwp os yw consortiwm am lwyddo; mae angen i bob aelod sylweddoli mai menter hir dymor bydd hwn.

Cofrestru

Er mwyn i'r consortiwm gael ei dderbyn gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) rhaid i bob aelod fod yn elusen a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusen (onid eithriwyd).

Arbenigedd codi arian

Â chymryd y bydd aelodau yn mynd at bobl busnes yn y gymuned, a bod y fath ymdriniaeth yn mynnu gwybodaeth o faterion codi arian yn ogystal â phroffesiynoldeb, bydd yn bwysig i sicrhau bod aelodau'r elusen eu hunain yn cymryd rhan mewn codi arian.

Egwyddorion cytundeb

Gall y rhain gynnwys:

- Meini prawf aelodaeth.
- Cydgyfrannu adnoddau, gwybodaeth a chysylltiadau.
- Dosrannu rolau i aelodau.
- Dosrannu cronfeydd arian i elusennau aelodau.
- Ethol cadeirydd.
- Ceisio recriwtio trysorydd annibynnol.
- Rheolau cymryd rhan a diffyg cymryd rhan.
- Proses ar gyfer newid aelodaeth a rhoi gwybod i HMRC.
- Mae templed ar gael - gweler 'Gwybodaeth bellach'.

Cymeradwyaeth HMRC

Gan fod rhoi o'r gyflogres yn darparu ad-daliad treth incwm ar gyfer y rhoddwyr, mae HMRC yn gofyn i elusennau sy'n dymuno gwneud hyn i ddilyn canllawiau penodol.

Cynllunio strategol

Mae cynllun strategol fel map, gyda chyfarwyddiadau, a luniwyd i alluogi cynnydd o ddechrau prosiect neu weithgaredd hyd at ei amcanion, mewn amser da ac mewn dull fforddiedig, gan ddangos yr holl fannau diddordeb ar hyd y ffordd. Mae'r cynllun yn amlinelliad, rhywbeth i ychwanegu ato wrth i bethau ddatblygu, tyfu a / neu newid. Gweler 'Gwybodaeth bellach' am gyfarwyddyd pellach ynghylch cynllunio strategol.

Gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr

Mae rhoi o'r gyflogres yn gynllun syml, a gellir cyflwyno buddion y cyflogwr yn glir ac yn effeithiol. Wrth fynd at gyflogwyr, dylid darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Sut mae rhoi o'r gyflogres effeithiol o ran treth yn gweithio.
- Cynllun gwobrwyo Marc Ansawdd.
- Rôl yr asiantaeth elusen.
- Y ffactor effeithiol o ran treth.
- Taliadau asiantaeth elusennol (yn rhad ac am ddim gyda WCVA phartneriaeth Charitable Giving))
- Sut i dderbyn datganiad misol a faint all gostio.
- Sut i gofrestru gyda'r asiantaeth.
- Ble i anfon y ffurflenni a gwblhawyd.
- Pwy sydd angen copi o'r ffurflen a'r ffactorau amser.
- Pryd fydd angen prosesu'r cyfraniadau gan y cwmni.
- Pryd fydd angen i'r cwmni anfon cyfanswm y cyfraniadau.

Amcan y cyfarfod cyntaf gyda chyflogwr yw:

- Ennill cefnogaeth ar gyfer y bartneriaeth.

- Eu helpu i sefydlu cynllun rhoi o'r gyflogres (os nad oes cynllun yno'n barod).
- Trefnu'r cyfleoedd gorau posib i'w hyrwyddo i'r gweithwyr.
- Trafod cyfleoedd codi arian posib yn y dyfodol e.e. diwrnodau gwisg anffurfiol.

Dod i adnabod y cwmni

Gwnewch ymchwil i gynllun presennol y cwmni os yn berthnasol, ac ystyriwch y cyfleoedd amrywiol ar gyfer hyrwyddo drwy sianelau cyfathrebu'r cwmni. Bydd pob cyflogwr yn wahanol:

- Oes yna gynllun rhoi o'r gyflogres? Os oes, gyda pha asiantaeth?
- Ydy'r person cyswllt yn gallu gwneud penderfyniadau?
- Oes unrhyw weithwyr yn adnabyddus i'r consortiwm? Os oes, yma ffordd?
- Oes yna gynlluniau cefnogi elusen yno'n barod?
- Ydy'r cwmni yn defnyddio e-bost?
- Oes yna ardaloedd cyhoeddus neu weithdai rheolaidd er mwyn cwrdd â gweithwyr?
- Y mwyaf newydd yw'r hyrwyddo, y gorau fydd.

Hyrwyddiadau gweithwyr

Wrth drefnu hyrwyddiadau, yn ddelfrydol bydd rhaid:

- gweld cymaint o bobl â phosib
- yn unigol os yn bosib
- mor anffurfiol â phosib
- yn yr amser byrraf posib

Trefnu dull addas

- Cyflwyniadau un ac un neu grwp bach sy'n gweithio orau.
- Gellir trefnu cerdded o gwmpas gyda neu heb dywysydd, neu fynd at bobl yn y ffreutur neu mewn manau ymgynnull ac ati.
- Mae cynteddau fel arfer yn rhy gyhoeddus neu brysur.
- Dylid osgoi defnyddio ystafelloedd o'r neilltu.
- Os collwyd nifer sylweddol o bobl, trefnwch i ddychwelyd pan fyddant yn gweithio.
- Dewch o hyd i ffordd i annog pobl i gwblhau'r ffurflenni yn ystod yr hyrwyddo, efallai trwy ofyn am ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi, i helpu cadw costau isel.
- Casglwch y ffurflenni i gyd a chadwch dau gopi; un i'r bartneriaeth, un ar gyfer asiantaeth yr elusen, a'r gwreiddiol i'r cyflogwr neu'r rheolwr sy'n canfasio dilyniant neu ddatblygiad.
- Ceisiwch sicrhau fod y rhoddwyr yn derbyn llythyron gennych yn brydlon. Gallant deimlo eu bod wedi gwneud rhywbeth pendant a'u bod wedi cefnogi eich grwp.

Bydd angen i chi:

- Gadarnhau gwerth ac amllder eu cyfraniadau e.e. £5 bob mis.

- Diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hatgoffa am eich prif negeseuon.
- Hefyd, ysgrifennu a diolch i gysylltiadau'r cwmni, a, ble'n addas, y person sy'n gweinyddu'r gyflogres ac felly'r ffurflenni.

Gweinyddu

Mae cadw golwg ar gysylltiadau, rhoddwyr ac incwm yn hanfodol. Dylech wneud hyn yn rheolaidd, a chynnal a / neu gynyddu teyrngarwch a chefnogaeth eich rhoddwyr.

Bydd angen rhyw fath o gyswllt ar y grwp, ynghyd â system rheoli noddwyr. Gellir gwneud hyn trwy ddull cerdyn neu ddyddiadur - cadw manylion pob cwmni a / neu roddwr ar ffeil gardiau a nodi dyddiadau atgoffa yn y dyddiadur. Efallai bod system meddalwedd addas gydag un o'r elusennau gyda bas data a ellir ei osod i reoli'r ddau faes yma. Efallai bydd y bartneriaeth eisiau cynyddu i ddefnyddio systemau pwrpasol wrth i bethau ddatblygu a niferoedd y cysylltiadau a'r rhoddwyr yn tyfu.

Bancio

Mae'n bwysig i sefydlu cyfrif banc ar gyfer y bartneriaeth. Mae nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnig cyfrifon arbennig ar gyfer mudiadau elusennol.

Neu gall Cyngor Gwirfoddol Sirol ddal cyllideb gyfyngedig ar gyfer cronfeydd y consortiwm.

Staff un-pwrpas

Unwaith y cenhedlir incwm digonol, megis £10,000 y flwyddyn dyweder, gall grwp ystyried recriwtio codwr arian i ddatblygu'r elfen o godi arian a gweithgareddau allweddol eraill.

Efallai byddai'n well gyda'r grwp i roi gweithgaredd hyrwyddol i fudiadau codi arian proffesiynol allanol sy'n codi tâl ymlaen llaw, ar sail pob rhoddwr a recriwtiwyd. Goblygiadau hyn fyddai llif arian negyddol, ond gan fod y taliad ar sail pob rhoddwr, mae'n cynnig opsiwn risg isel.

Am restr o fudiadau codi arian proffesiynol, ymwelwch â gwefan:

www.apgpfo.org.uk - Association of Payroll Giving Professional Fundraising Organisations

Gwybodaeth bellach

Taflenni gwybodaeth

2.0 Rheoli eich sefydliad

2.1 Datblygu Cynllun Strategol

2.2 Y Cynllun Busnes

7.10.1 Cyflwyniad i roi arian trwy'r gyflogres

7.10.2 Codi arian trwy'r gyflogres

Cymru'n Rhoi

Llinell gymorth 0800 2888 329

givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres

www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising

www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities

Helpline 0845 302 0203

charities@hmrc.gov.uk

www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA

Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011